# Hip Hip Hipo

Cyfnod Sylfaen

Yn y gweithdy 1awr yma sydd yn berthnasol i un o sbesimenau mwyaf poblogaidd yr oriel, bydd y disgyblion yn archwilio bywyd gwyllt Affrica, yn trin esgyrn anifeiliaid real ac yn cymryd rhan mewn stori ddramatig am Heulwen yr Hipopotamws swil.

## Amcanion dysgu

Dylai'r disgyblion:

- Ddefnyddio esgyrn anifeiliaid fel cliwiau i faint anifail
- Meddwl am y gwahaniaethau rhwng anifeiliaid gwahanol
- Deall bod gwahaniaethau'n beth da!



Deall bod gan anifeiliaid sgerbydau yn eu cyrff

Deall y cysyniad o feintiau mwy a llai

## Cyswllt â'r cwricwlwm


- Iaith, llenyddiaeth a chyfathrebu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad creadigol
- Defnyddio rhifau a mesur

## Syniadau ar gyfer y Dosbarth

Rhai awgrymiadau ar beth i'w drafod a'i wneud gyda'r dosbarth cyn ac wedi'r ymweliad.

## Cyn ymweld

Edrych ar fap o'r byd i weld ble mae Affrica



### Rhai geiriau fydd yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad:

Mamal
Sgerbwd
Esgyrn
Penglog
Ffwr
Cen
Cynefin

## Wedi ymweld

Masgiau anifeiliaid: crëwch fasgiau o'ch hoff anifeiliaid a'u defnyddio i adrodd straeon

Map anifeiliaid: crëwch arddangosiad dosbarth o anifeiliaid o bob cwr o'r byd

Cerddi anifeiliaid: meddyliwch am eiriau i ddisgrifio'ch hoff anifail a defnyddiwch nhw i greu cerdd

## Workshop Breakdown:

| Gweithgaredd | Disgrifiad |
|---|---|
| Anifeiliaid Affrica | Trafodaeth grŵp ar ble mae Affrica a pa fath o anifeiliaid sydd yn byw yno |
| Ymarferol | Archwilio sbesimenau real a replica er mwyn deall rhai o anifeiliaid Affrica yn well |
| Amser stori | Cymryd rhan mewn stori gyffrous lle gall disgyblion chwarae rhannau gwahanol. |